



**Canllawiau Cenedlaethol GIG Cymru i lywio gweithdrefn weithredu
safonol Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer Aseidiadau Meddygol Amddiffyn
Plant Lle Amheuir Cam-drin Corfforol ac Esgeulustod**

Canllawiau arfer gorau


Awduron	Grŵp WLDS gyda diolch i'r tîm o Betsi Cadwaladr am rannu eu gweithdrefn weithredu safonol leol
Adran Gyfrifol / Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Meddyg Dynodedig ar gyfer Diogelu, Y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Cymeradwywyd gan:	Rhwydwaith Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru
Dyddiad cymeradwyo:	03/2025
Dyddiad actifadu (byw):	04/2025
Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon:	Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan RCPCH Child Protection Service Delivery Standards RCPCH Child Protection Companion H
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	02/2028
Dyddiad y'i Cwblhawyd Diwethaf:	Amherthnasol - Canllaw Newydd

Noder Dylid atal gweithwyr rhag argraffu'r ddogfen hon. Mae hyn er mwyn osgoi'r risg o hen fersiynau printiedig o'r ddogfen. Dylid cyfeirio at y fewnryd ar gyfer y fersiwn gyfredol o'r ddogfen.

CYNNWYS

SIART LLIF PROSES ATGYFEIRIO	3
1 CYFLWYNIAD/TROSOLWG.....	4
2 DATGANIAD POLISI	4
3 DIBEN.....	4
4 AMCANION.....	4
5 CWMPAS.....	5
6 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU.....	5
7 Y BROSES ATGYFEIRIO	6
8 Y BROSES ASESU	9
9 DOGFENNAETH AC ADBORTH	14
10 YMCHWILIADAU, BARN BELLACH AC ATGYFEIRIADAU	16
11 CYMORTH I STAFF	18
12 ADNODDAU, HYFFORDDIANT A GWEITHREDU.....	18
13 RHAGOR O WYBODAETH - DOGFENNAU CLINIGOL.....	18
14 ARCHWILIO.....	18
15 ADOLYGU	19
16 ATODIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER Y WEITHDREFN WEITHREDU SAFONOL LEOL	19
16.2 TAFLEN WYBODAETH I GLEIFION AM ASESIAU MEDDYGOL AMDDIFFYN PLANT CYMRU.....	26
16.3 PROFORMA ASESIAID MEDDYGOL AMDDIFFYN PLANT CYMRU GYFAN.....	27

SIART LLIF PROSES ATGYFEIRIO



1 CYFLWYNIAD/TROSOLWG

- 1.1 Mae Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant (CPMA) yn rhan ganolog o lwyth gwaith Staff Meddygol Pediatrig.
- 1.2 Pwrpas yr archwiliad meddygol yw cyfrannu at asesiad amlasiantaeth, y cyfeirir ato yn aml fel Ymchwiliad Adran 47, trwy rannu gwybodaeth, pennu'r tebygolrwydd o gam-drin ar gydbwysedd tebygolrwydd, nodi anghenion iechyd, hwyluso ymchwiliad yr heddlu i drosedd bosibl a helpu i leihau canlyniadau corfforol a seicolegol camdriniaeth.
- 1.3 Mae Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant yn asesiadau cynhwysfawr sy'n cynnwys yr hanes clinigol a'r archwiliad, a dogfennaeth fanwl gan ddefnyddio dogfennu ar fapiau o'r corff a ffotograffau. Yn ogystal, mae'r asesiad yn cynnwys cael unrhyw ymchwiliadau perthnasol, trefnu unrhyw ôl-ofal angenrheidiol ac ysgrifennu adroddiad gyda barn.

2 DATGANIAD POLISI

Dylai polisïau'r Bwrdd Iechyd Lleol gefnogi Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a safonau'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) a sicrhau bod yr holl staff yn dilyn y canllawiau hyn yn drylwyr i ymgymryd ag Archwiliadau Meddygol Amddiffyn Plant yn gyson ar y safon uchaf.

3 DIBEN

- Gosod yn glir y gweithdrefnau ar gyfer trefnu a chwblhau Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant.
- Sicrhau bod Ymarferwyr Iechyd yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau wrth ddiogelu plant mewn perygl.
- Sicrhau bod pob Ymarferydd Iechyd yn cydnabod bod diogelu ac amddiffyn plant yn gyfrifoldeb pawb.
- Sicrhau bod ymarfer yn unol â gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau diogelu cysylltiedig.

4 AMCANION

Bydd y weithdrefn hon yn sicrhau bod pob Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant yn cael ei gynnal yn brydlon tra'n sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn ac o'r safon uchaf.

5 CWMPAS

- 5.1 Mae'r ddogfen hon i'w defnyddio gan yr holl Staff Meddygol sy'n ymgymryd ag Archwiliadau Meddygol Amddiffyn Plant ar gyfer plant 0-17 oed, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd sy'n codi pryderon a Gweithwyr Cymdeithasol sydd am drefnu archwiliad o'r fath.
- 5.2 I'w ddefnyddio ochr yn ochr â chanllawiau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys:
- Safonau darparu gwasanaethau arfer dda ar gyfer rheoli plant a atgyfeirir ar gyfer asesiadau meddygol amddiffyn plant (Coleg Brenhinol Pediatreg ac lechyd Plant).
 - Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.
 - Ymchwiliad Radiolegol i Achosion a Amheuir o Gam-drin Corfforol mewn Plant (Coleg Brenhinol y Radiolegwyr).
 - Llawlyfr Amddiffyn Plant RCPCH
- 5.3 Bydd y Weithdrefn yn berthnasol i bob Defnyddiwr Gwasanaeth o fewn y Bwrdd lechyd, sydd o dan 18 oed, sy'n cael ei nodi fel plentyn mewn perygl ac sydd wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod.
- 5.4 Mae Diogelu a Diogelu Cyhoedd yn ymrwymo i sicrhau bod y gweithlu yn cael eu cefnogi yn eu dyletswydd i ddiogelu plant. Mae'r Weithdrefn yn rhoi gwybodaeth i Ymarferwyr i'w helpu i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau wrth ddiogelu plant mewn perygl.
- 5.5 Mae'n cynorthwyo'r holl Ymarferwyr lechyd i allu cydnabod bod diogelu ac amddiffyn plant yn gyfrifoldeb pawb.
- 5.6 Mae'n darparu canllawiau i hwyluso arfer yn unol â gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau diogelu cysylltiedig.

6 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

- 6.1 Gall Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant gael eu cwblhau gan feddygon Pediatrig sy'n gweithio ar ST4 neu lefel gyfatebol neu uwch gyda chymwyseddau Diogelu Lefel 3 perthnasol.
- 6.2 Mae pediatregwyr mewn rolau diogelu arweiniol a'r tîm Diogelu yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn.
- 6.3 Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio sy'n atebol.

7 Y BROSES ATGYFEIRIO

7.1 Rhoi gwybod am bryderon i Ofal Cymdeithasol Plant

Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb pawb.

Mae gan unrhyw berson sydd ag amheuaeth bod plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed wedi dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol ddyletswydd i roi gwybod am eu pryder i Ofal Cymdeithasol Plant yn unol â gweithdrefnau lleol. Os yw'r person sydd â'r pryder yn Weithiwr Iechyd Proffesiynol sy'n gweithio o fewn y Bwrdd Iechyd, rhaid i'r atgyfeiriad gael ei wneud i Ofal Cymdeithasol Plant o hyd. Mae'n ddyletswydd ar y Gweithiwr Gofal Iechyd proffesiynol i drafod achosion brys gyda'r Awdurdod Lleol. Er bod y Tîm Diogelu a Diogelu'r Cyhoedd a Phediatregwyr ar gael i roi cyngor ynglŷn â phryderon diogelu, ni ddylid disgwyl iddynt gymeradwyo, cydlynu neu drefnu atgyfeiriad i Ofal Cymdeithasol Plant.

7.2 Penderfyniad i ofyn am Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant

Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol i gydlynu ymateb i'r atgyfeiriad at Ofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofyn am Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant os yw'n briodol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal Trafodaeth Strategaeth lle dylid penderfynu a ddylid gofyn am asesiad meddygol amddiffyn plant. Ar gyfer achosion lle mae ansicrwydd ynghylch gwerth asesiad meddygol amddiffyn plant, gall y drafodaeth strategaeth ddod i'r casgliad bod angen cyngor pellach gan bediatregydd ynghylch addasrwydd asesiad meddygol amddiffyn plant. Os nad yw'r pediatregydd wedi mynychu'r drafodaeth strategaeth, yna bydd y gweithiwr cymdeithasol yn briffio'r pediatregydd yn llawn.

Dylid cynnal Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant (CPMA) o fewn 24 awr i'r atgyfeiriad gan Ofal Cymdeithasol pryd bynnag y bo modd. Dylid cynnal y rhan fwyaf o asesiadau o fewn oriau dydd (0900-1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener). Rhaid cynnal cyfarfod strategaeth cyn yr asesiad meddygol amddiffyn plant a darparu cofnodion y cyfarfod hwnnw strategaeth yn yr asesiad.

Mae pwrpas asesiad meddygol amddiffyn plant yn cynnwys:

- Penderfynu ar y tebygolrwydd o gam-drin corfforol ar gydbwysedd tebygolrwydd.
- Nodi anafiadau heb eu hadnabod.
- Edrych am arwyddion o esgeulustod.
- Nodi anghenion meddygol heb eu diwallu.
- Helpu i leihau canlyniadau corfforol a seicolegol camdriniaeth.
- Hwyluso ymchwiliad yr heddlu i drosedd bosibl trwy ddogfennu canfyddiadau clinigol, gan gynnwys dogfennu ar fapiau o'r corff a ffotograffau o anafiadau.

- Cyfrannu at yr asesiad amlasiantaeth trwy rannu gwybodaeth.

Bydd y penderfyniad i gynnal ymchwiliadau fel profion gwaed ac arolygon ysgerbydol yn cael ei wneud gan y meddyg sy'n archwilio yn seiliedig ar ei asesiad, nid fel canlyniad i'r cyfarfod strategaeth.

7.2.1 **Dydd Llun i ddydd Gwener 0900-1630**

Dylai aelod o staff Gofal Cymdeithasol gysylltu â'r rhif a roddir. Bydd y pediatregydd yn cysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol i drafod ymhellach, os yw'n briodol.

Bydd dyddiad, amser a lleoliad yr archwiliad meddygol yn cael eu darparu i'r Gweithiwr Cymdeithasol, naill ai gan y Pediatregydd neu gan y Gweinyddwr.

Os nad yw'n bosibl i'r asesiad meddygol gael ei gynnal ar yr un diwrnod, dylid dod i gytundeb ynghylch a oes angen asesiad brys y tu allan i oriau neu a fydd apwyntiad yn cael ei wneud ar gyfer y diwrnod canlynol. Rhaid i'r drafodaeth hon gynnwys manylion ynghylch sut bydd y plentyn yn cael ei ddiogelu tan yr asesiad.

Os cytunir bod yr archwiliad meddygol yn angenrheidiol y tu allan i oriau, yna bydd y Pediatregydd yn cysylltu â'r Ymgynghorydd Pediatrig Acíwt sydd ar alwad i'w hysbysu am y manylion a'r rhesymeg dros gynnal yr asesiad meddygol y tu allan i oriau. Os cytunir y gellir gohirio'r asesiad meddygol tan y diwrnod canlynol, efallai y bydd yn briodol o hyd i'r Pediatregydd roi gwybod i'r Ymgynghorydd Pediatrig Acíwt am y trafodaethau sydd wedi digwydd, rhag ofn i'r Gweithiwr Cymdeithasol gysylltu ag ef wedi hynny.

Y Pediatregydd sydd i wneud y penderfyniad terfynol ar amseru'r asesiad meddygol.

Rhaid dogfennu pob trafodaeth yn nodiadau'r claf, waeth a yw'r plentyn yn cael ei weld yn y pen draw ar gyfer asesiad meddygol ai peidio.

7.2.2 **Y tu allan i oriau (penwythnosau, gwyliau banc a dydd Llun i ddydd Gwener ar ôl oriau gwaith arferol)**

Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol gysylltu â'r pediatregydd ar alwad trwy switsfwrdd yr ysbyty.

Dylid dod i gytundeb ynghylch a oes angen asesiad meddygol brys y tu allan i oriau neu a ellir gwneud yr asesiad meddygol ar y diwrnod gwaith nesaf.

Ni ddylid trefnu asesiadau brys y tu allan i oriau oni bai bod trafodaeth wedi bod gyda'r Pediatregydd Ymgynghorol. Ar ôl 5pm, dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol gysylltu â'r Meddyg gradd ganol, a fydd yn trafod gyda'r Ymgynghorydd. Fodd bynnag, dim ond yn dilyn trafodaeth uniongyrchol rhwng y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Ymgynghorydd y dylid penderfynu gohirio'r

archwiliad meddygol tan y diwrnod gwaith nesaf. Os nad y Meddyg a fu'n rhan o'r trafodaethau cychwynnol yw'r Meddyg a fydd yn perfformio'r asesiad, rhaid trosglwyddo ar lafar.

Mae'r argymhellion cyfredol yn nodi y dylid cynnal asesiadau meddygol amddiffyn plant o fewn 24 awr i'r atgyfeiriad gan Ofal Cymdeithasol. Cydnabyddir y bydd angen prosesu atgyfeiriadau sy'n dod i law ar ddydd Gwener neu ddydd Sadwrn yn wahanol i'r rhai sy'n cael gwneud ar ddiwrnodau eraill. Bydd angen i'r trothwy ar gyfer cynnal asesiad brys y tu allan i oriau fod yn is i sicrhau bod y safon hon yn cael ei chyrraedd.

Mae arwyddion ar gyfer asesiadau brys y tu allan i oriau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Unrhyw fabi nad yw'n symudol lle mae amheuaeth o gam-drin corfforol. Mae angen asesiad meddygol mwy brys ar y babanod hyn ac maent yn debygol iawn o fod angen ymchwiliadau pellach.

Yn ystod trafodaethau ynghylch asesiadau brys y tu allan i oriau, rhaid ystyried sut bydd y plentyn yn cael ei ddiogelu hyd nes y caiff ei asesu. Nid yw hwyluso trefniadau diogelu ynddo'i hun yn rheswm dros gynnal asesiad brys y tu allan i oriau.

Pan deimlir ar ôl trafodaeth ei fod er budd gorau'r plentyn i asesiad meddygol gael ei ohirio i'r diwrnod canlynol, bydd y Cofrestrydd Pediatrig Ar Alwad yn cysylltu â'r tîm Pediatrig trwy anfon e-bost at y tîm gweinyddol i'w hysbysu o'r angen am yr asesiad meddygol ac yn darparu'r manylion atgyfeirio.

Yna bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol y bore canlynol i wneud trefniadau.

Y Pediatregydd sydd i wneud y penderfyniad terfynol ar amseru'r asesiad meddygol.

Rhaid dogfennu pob trafodaeth yn nodiadau'r claf, waeth a yw'r plentyn yn cael ei weld i gael asesiad meddygol yn y pen draw ai peidio.

7.3 **Salwch neu anaf aciwt**

Ni ddylid defnyddio Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant fel llwybr i geisio sylw meddygol ar gyfer salwch neu anaf aciwt a ddylai gael blaenoriaeth. Pan amheuir salwch neu anaf aciwt (e.e. torasgwrn), dylid dilyn llwybrau sefydledig ar gyfer rheoli'r anaf (e.e. mynd i'r Adran Achosion Brys). Dylid cyfathrebu unrhyw bryderon diogelu i'r tîm sy'n trin y claf a dylid gwneud trefniadau ar gyfer asesiad meddygol amddiffyn plant ar ôl mynd i'r afael â'r broblem aciwt. Dylid trafod trefniadau diogelu interim gyda Gofal Cymdeithasol.

8 Y BROSES ASESU

8.1 Dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig am yr asesiad meddygol amddiffyn plant i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd cyn iddynt ddod i'r asesiad meddygol amddiffyn plant lle bo hynny'n bosibl (Taflen Wybodaeth i Gleifion am Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant Cymru Gyfan).

8.2 Asesiadau yn ystod oriau gwaith arferol

Mae Uwch Bediatregydd ar gael i berfformio asesiadau meddygol amddiffyn plant bob diwrnod o'r wythnos. Dylai plant fynd i'r apwyntiad yng nghwmni oedolyn cyfrifol. Dylai Gweithiwr Cymdeithasol fod yn bresennol hefyd. Gall gweithwyr proffesiynol eraill (e.e. yr heddlu) fod yn bresennol. Dylid dod â phlant i'w hasesu ar yr adeg y cytunwyd arnynt gyda'r Pediatregydd. Os oes angen, dylid trefnu hyn yn dilyn trafodaeth rhwng y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Pediatregydd.

Bydd y lleoliad lle cynhelir asesiad meddygol amddiffyn plant yn cael ei gytuno rhwng y Tîm Meddygol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn i'r apwyntiad gael ei wneud. Dim ond lleoliadau sy'n briodol i oedran a datblygiad y plentyn neu'r person ifanc y dylid eu harchebu ar gyfer asesiadau o'r fath. Dylai lleoliadau fod â chyfleusterau i gefnogi plant a phobl ifanc a theuluoedd ag anableddau, a dylid darparu cymorth priodol os oes ei angen neu os gofynnir amdano. Dylai lleoliadau hefyd gynnig preifatrwydd priodol ar gyfer unrhyw drafodaethau ac archwiliadau sydd eu hangen.

8.3 Asesiadau brys y tu allan i oriau

Dylai'r Pediatregydd a'r Gweithiwr Cymdeithasol gytuno ar amseriad yr asesiad; fodd bynnag, bydd ymrwymadau clinigol brys yn cael blaenoriaeth. Dylai plant ddod i'r apwyntiad yng nghwmni oedolyn cyfrifol. Dylai Gweithiwr Cymdeithasol fod yn bresennol yn yr apwyntiad hefyd lle bynnag y bo modd. Os nad yw hyn yn ymarferol, dylid rhannu gwybodaeth rhwng y Pediatregydd a'r Gweithiwr Cymdeithasol dros y ffôn. Gall gweithwyr proffesiynol eraill (e.e. yr heddlu) fod yn bresennol.

8.4 Asesu brodyr a chwiorydd

Dylid ystyried ceisiadau i asesu brodyr a chwiorydd yn y cyfarfod strategaeth. Dylid trafod yr angen i asesu unrhyw frodyr a chwiorydd, ac amseriad asesiadau o'r fath, gyda'r meddyg archwilio os nad ydynt yn cael eu gwneud yr un pryd â'r achos cyfeirio. Mae'n bosibl y bydd angen asesu brodyr a chwiorydd ar ddiwrnod gwahanol i'r plentyn cyfeirio.

8.5 Cydsyniad

8.5.1 Beth yw cydsyniad?

Mae cydsyniad ar sail gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r meddyg siarad yn uniongyrchol â'r person â chyfrifoldeb rhieni ac esbonio:

- Pwrpas a phroses yr archwiliad meddygol;
- Nodi'n glir holl elfennau'r archwiliad h.y. hanes, archwiliad, sbesimenau fforensig, defnydd o ddogfennaeth fideo/lluniau llonydd;
- Esbonio y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu i'w thrafod gyda chydweithwyr;
- Bydd canfyddiadau ac adroddiadau yn cael eu rhannu gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Llysoedd;
- Gellir darllen yn uchel y wybodaeth a geir o'r archwiliad yn y Llys hefyd.

8.5.2 Pwy all roi cydsyniad?

Rhaid i'r pediatregydd sy'n ymgymryd â'r asesiad gael cydsyniad priodol ar gyfer yr asesiad. Yn ôl y gyfraith, gall archwiliad heb gydsyniad gael ei ystyried yn ymosodiad. Lle bo modd, dylid cael cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer yr asesiad meddygol amddiffyn plant gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, gan ddefnyddio'r ffurflen cydsyniad yn y Proforma Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant. Cyfrifoldeb y Gweithiwr Cymdeithasol yw sicrhau bod y person â chyfrifoldeb rhiant ar gael. Hyd yn oed os ceir caniatâd gan rywun sydd â chyfrifoldeb rhiant, gall plentyn neu berson ifanc wrthod cael ei archwilio.

Yn 16 oed a throsodd, dylid rhagdybio bod y person ifanc yn gallu rhoi ei gydsyniad ei hun. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i bawb sy'n ymwneud â chefnogi person ifanc roi sylw i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005), a Chod Ymarfer y Ddeddf honno.

Os nad oes gan berson ifanc y galluedd i wneud penderfyniad gofal/triniaeth penodol, gall y staff gofal iechyd sy'n darparu triniaeth gyflawni triniaeth/gofal gydag amddiffyniad rhag atebolrwydd, p'un a yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn cydsynio ai peidio, os ydynt wedi dilyn egwyddorion y Ddeddf, wedi ystyried yr holl ffactorau yn y rhestr wirio a sicrhau bod y gweithredoedd y maent yn eu cyflawni er budd gorau'r person ifanc. Rhaid iddynt hefyd ystyried barn pawb sydd â diddordeb yn lles y person ifanc, gan gynnwys y rhai sydd â Chyfrifoldeb Rhiant. Gall plant a phobl ifanc o dan 16 oed roi cydsyniad os ydynt yn gallu deall yr asesiad meddygol a'i oblygiadau'n llawn, ac yn cael eu hystyried yn gymwys i gydsynio.

8.5.3 Cyfrifoldeb rhiant

Cyflwynwyd cyfrifoldeb rhiant gan Ddeddf Plant 1989 a'i ddiwygio gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Mae'n ofynnol er mwyn rhoi cydsyniad cyfreithiol ar gyfer rhoi archwiliad/triniaeth i blentyn o dan 16 oed.

Pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant:

- **Mam;** bob amser
- **Tad Priod;** O bwynt y briodas (cyn neu ar ôl yr enedigaeth)
- **Tad di-briod;** Ers mis Rhagfyr 2003—os yw'n cael ei enwi ar y dystysgrif geni,neu, os nad ar dystysgrif geni, ei gael trwy'r llys
- **Perthnasau;** Dim ond os oes ganddynt Orchymyn Preswiliad/Trefniadau Plentyn ar gyfer y plentyn.
- **Awdurdod Lleol;** Os oes ganddynt Orchymyn Diogelu Brys neu Orchymyn Gofal (rhaid ymgynghori â nhw yn y ddau achos).
- **Erail;** Mabwysiadu – unwaith y rhoddir gorchymyn mabwysiadu, mae rhieni mabwysiadol yn dod yn rhiant cyfreithiol i'r plentyn ac mae rhieni geni yn colli cyfrifoldeb rhiant.

Gorchymynion Llys

- **Pwerau Diogelu'r Heddlu;** Para hyd at 72 awr. Maent yn caniatáu i blentyn gael ei symud i le diogel.
- **Gorchymyn Diogelu Brys;** Para hyd at 8 diwrnod. Mae gan Awdurdod Lleol Gyfrifoldeb Rhiant am gyfnod y gorchymyn ond mae'n rhaid nodi Cyfrifoldeb Rhiant ar gyfer asesiad meddygol amddiffyn plant yn y gorchymyn.
- **Gorchymyn Gofal;** Para tan ben-blwydd y plentyn yn ddeunaw neu hyd nes y caiff ei ddirymu gan y llys. Yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r Awdurdod Lleol yn ogystal â'r rhieni.
- **Gorchymyn Preswiliad/Gwarcheidiaeth Arbennig;** Nodi lle mae plentyn i fyw. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r person y mae'r gorchymyn yn cael ei wneud iddo.

Canllawiau Fraser/Gillick ar blant/pobl ifanc o dan 16 oed yn rhoi cydsyniad

- A yw ef/hi, er o dan un ar bymtheg oed, yn deall y cyngor gan y gweithwyr iechyd proffesiynol?
- Mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol wedi trafod cynnwys y rhieni, ond nid yw'n gallu perswadio'r unigolyn i hysbysu ei rhieni.
- Gall iechyd meddwl neu gorfforol yr unigolyn ddiodef os na roddir triniaeth.
- Mae cyngor neu driniaeth ym mudd gorau'r unigolyn gyda neu heb gyfranogiad rhieni.
- I'r rhai dros 16 oed, dylid cyfeirio at egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

8.5.4 **Pan nad yw'r rhiant yn gallu bod yn bresennol**

Dylai hyn fod yr eithriad, ond gall ddigwydd e.e. pan fydd pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant wedi cael eu harestio ac yn y ddalfa. Mewn amgylchiadau eithriadol o'r fath, gellir cymryd cydsyniad llafar dros y ffôn. Dylai gweithiwr proffesiynol arall (e.e. Gweithiwr Cymdeithasol neu Nyrs) fod yn dyst i hyn gyda'r ffôn ar uchelseinydd.

Dylid cofnodi enw a llofnod y tyst yn y proforma asesiad meddygol amddiffyn plant. Os yw plentyn neu berson ifanc yn gwrthod cydsynio neu gytuno i ryw faint neu'r cyfan o'r asesiad meddygol, dylid dogfennu hyn.

8.5.5 **Plant sy'n destun achos llys**

Pan fo'r plentyn eisoes yn destun achos mewn llys, mae angen cydsyniad yr un llys. Os yw'r plentyn yn destun [Gorchymyn Gofal](#), gall Pennaeth Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol roi cydsyniad.

8.5.6 **Os gwrthodir cydsyniad**

Os yw rhieni'n gwrthod cydsyniad yn gyson, gellir gwneud cais am [Orchymyn Asesu Plentyn](#) at ddibenion sefydlu ffeithiau sylfaenol am gyflwr y plentyn. Mae'r Gorchymyn yn galluogi'r Llys i gyfarwyddo'r rhieni i gydweithredu ag asesiad, a bydd manylion yr asesiad yn benodol, ond nid yw'n caniatáu symud y plentyn o'i gartref. Gall y plentyn barhau i wrthod cael ei archwilio.

8.6 **Dehonglwyr**

Dylid trefnu dehonglwyr lle bo angen, a dylent ddod o asiantaethau partner cymeradwy. Rhaid dogfennu enw a rhif cofrestru'r dehonglydd, yn ogystal â'r iaith a siaredir.

Rhaid i'r dehonglydd beidio â bod yn hysbys i'r teulu. Ni ddylid defnyddio aelodau o'r teulu a phobl ifanc fel dehonglwyr.

8.7 **Personél**

8.7.1 **Staff meddygol**

Rhaid i asesiadau meddygol amddiffyn plant gael eu cynnal gan Feddygon Pediatrig sy'n gweithio ar lefel ST4 neu uwch neu gyfwerth, sydd â chymwyseddau amddiffyn plant Lefel 3 perthnasol.

Dylai plant a welir ar gyfer asesiad meddygol amddiffyn plant fod â Chlinigydd penodol wedi'i ddogfennu sy'n gyfrifol am y farn amddiffyn plant. Dylai enw a rôl y Clinigydd gael eu cofnodi'n glir ar y proforma archwiliad meddygol amddiffyn plant a'r adroddiad terfynol.

Rhaid i asesiadau meddygol amddiffyn plant a gynhelir gan feddygon dan hyfforddiant gael eu goruchwyllo'n agos gan Uwch Pediatregydd sydd â

chymwyseddau amddiffyn plant Lefel 3 perthnasol. Yn y man lleiaf, dylai hyn gynnwys adolygu unrhyw anafiadau gweladwy neu ganfyddiadau a chydlofnodi'r adroddiad.

Dylai asesiadau meddygol amddiffyn plant a gynhelir gan glinigwyr SAS gael eu goruchwyllo gan uwch glinigydd a enwir os oes angen. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar lefel hyfforddiant a phrofiad y meddyg SAS.

Rhaid i'r proforma asesiad amddiffyn plant a'r adroddiad teipiedig terfynol nodi'n glir y Clinigydd sy'n archwilio, yn ogystal â'r Uwch Glinigydd Goruchwyllo os yw'n berthnasol.

Dylai asesiadau meddygol amddiffyn plant gael eu cynnal neu eu goruchwyllo gan Glinigwyr sy'n cymryd rhan weithredol mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol, yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd, ac yn mynychu cyfarfodydd adolygu cymheiriaid yn rheolaidd fel bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal eu sgiliau. Os bydd pryderon rheolaidd neu sylweddol yn codi ynglŷn â gallu Clinigwr i gynhyrchu barn a gweithredoedd clir, cytbwys a rhesymol yng nghyd-destun asesiadau meddygol amddiffyn plant, yna bydd mesurau goruchwyllo neu reoleiddio priodol yn cael eu rhoi ar waith yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

8.7.2 Gwarchodwr

Arfer gorau yw y dylai gwarchodwr a enwir fod yn bresennol ar gyfer pob asesiad meddygol amddiffyn plant. Dylai'r gwarchodwr weithredu fel tyst a dylai gefnogi'r plentyn yn ystod yr asesiad. Dylid cofnodi enw a dynodiad y gwarchodwr yn y nodiadau meddygol ac ar yr adroddiad meddygol. Dylai'r defnydd o warchodwr gael ei lywio gan bolisi lleol a chenedlaethol.

Rôl y gwarchodwr yw:

- a) Bod yn sensitif a pharchu urddas a chyfrinachedd y claf.
- b) Sicrhau'r claf os yw'n dangos arwyddion o ofid neu anghysur.
- c) Bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag asesiad meddygol amddiffyn plant.
- d) Aros trwy gydol yr asesiad meddygol a'r archwiliad a gallu gweld beth mae'r meddyg yn ei wneud, os yw'n ymarferol.
- e) Bod yn dyst i'r broses cydsynio
- f) Bod yn barod i godi pryderon, os yw'n poeni am ymddygiad neu weithredoedd y meddyg.

Nid yw myfyrwyr meddygol neu nyrsio yn gallu gweithredu fel gwarchodwyr ar eu pennau eu hunain. Mewn amgylchiadau prin, gall fod yn briodol i Weithiwr Cymdeithasol weithredu fel gwarchodwr yn ystod y broses nodi hanes. Fodd bynnag, rhaid i'r gwarchodwr yn ystod unrhyw archwiliad fod yn Weithiwr Iechyd Proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol ar rôl gwarchodwr.

Y safon aur yw i weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig weithredu fel gwarchodwr, ond cydnabyddir nad yw adnoddau yn caniatáu hyn ar hyn o

bryd mewn llawer o Fyrddau Iechyd. Felly bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi fel gwarchodwr ac sy'n deall y meini prawf ar gyfer cydsyniad dilys yn ddigonol. Gallai'r rhain gynnwys:

1. Nyrsys cymwysedig.
2. Cynorthwywyr gofal iechyd.
3. Cynorthwywyr meddyg.

Dylid darparu ar gyfer dewisiadau plant a phobl ifanc ynglŷn â phwy yw eu gwarchodwr lle bynnag y bo modd.

Dylai enw, rôl a, lle bo hynny'n berthnasol, rhif adnabod proffesiynol y gwarchodwr gael eu dogfennu'n glir yn y proforma asesiad meddygol amddiffyn plant a'r adroddiad teipiedig terfynol.

8.7.3 Oedolion gyda'r plentyn

Dylai plant fod yng nghwmni oedolyn cefnogol ar gyfer yr asesiad meddygol amddiffyn plant. Gall yr oedolyn cefnogol fod yn rhiant y plentyn. Dylai'r plentyn fod yn rhydd i fynegi unrhyw bryderon am bresenoldeb oedolyn yn ystod ei asesiad.

Mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i bresenoldeb aelodau o'r teulu a allai adnabod y troseddwr honedig. Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi cyfle i bob plentyn siarad â'r Clinigydd sy'n archwilio a'r gwarchodwr heb fod yr oedolyn sydd gyda'r plentyn yn bresennol.

Dylai'r plentyn neu'r person ifanc gael dewis pwy sy'n aros gydag ef yn ystod asesiad meddygol amddiffyn plant. Mae hyn yn cynnwys y dewis i beidio â chael perthynas neu Weithiwr Cymdeithasol yn bresennol.

9 DOGFENNAETH AC ADBORTH

9.1 Adborth llafar

Dylai fod adborth llafar ar unwaith i'r Gweithiwr Cymdeithasol ynglŷn â chanlyniad yr archwiliad meddygol, ac eithrio mewn sefyllfaoedd lle mae angen i Feddyg gradd ganol drafod gyda'r Ymgynghorydd yn gyntaf. Yn yr achos hwn, dylid rhoi adborth llafar i'r Gweithiwr Cymdeithasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y drafodaeth honno.

Dylid rhoi adborth llafar i'r rhieni ac, os yw'n briodol i'r person ifanc, ar yr un pryd â rhoi adborth i'r gweithiwr cymdeithasol neu'n syth wedyn.

9.2 Dogfennaeth ysgrifenedig

Dylid dogfennu'r archwiliad meddygol gan ddefnyddio'r proforma Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant . Dylai hyn gynnwys o leiaf 3 dynodwr claf a llofnod y clinigydd archwilio ar bob tudalen. Dylid ffeilio'r proforma asesiad wedi'i gwblhau yn nodiadau'r cleifion.

Dylid darparu barn ysgrifenedig gychwynnol o fewn 24 awr i'r asesiad meddygol. Dylid darparu adroddiad ysgrifenedig cynhwysfawr, wedi'i deipio, gyda barn broffesiynol lawn yn ddiogel i ofal cymdeithasol a'r Heddlu (oni bai y cytunwyd yn wahanol) o fewn 10 diwrnod gwaith. Dylid rhannu'r adroddiad hwn yn ddiogel gyda Gweithwyr Iechyd Perthnasol fel y Meddyg Teulu, yr Ymwelydd Iechyd a'r Nyrs Ysgol. Dylid ffeilio copi yng nghofnod iechyd y plentyn.

Rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir mewn cyfarfod strategaeth y mae'r Peditregydd yn cael ei hysbysu amdanynt, boed cyn neu ar ôl yr asesiad meddygol amddiffyn plant, gael eu cofnodi'n glir yng Nghofnod Iechyd y Plentyn.

9.3 **Ffotograffiaeth**

Dylid tynnu ffotograffau clinigol o anafiadau adeg yr asesiad meddygol amddiffyn plant neu'r diwrnod gwaith nesaf i'r rhai sydd ag adrannau ffotograffiaeth glinigol. Os nad oes ffotograffau'n cael eu tynnu, dylid dogfennu'r rheswm am hyn.

Pan fydd ffotograffau meddygol wedi'u tynnu, rhaid dogfennu hyn yn yr adroddiad terfynol, gan gynnwys nifer y ffotograffau a pha ran y tynnwyd llun ohoni. Ni ddylid atodi ffotograffau i'r adroddiad.

9.4 **Rhannu gwybodaeth**

Rhaid sicrhau cyfrinachedd cleifion a rheoli gwybodaeth pryd bynnag y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei rhannu, o fewn y Bwrdd Iechyd a gydag asiantaethau partner.

Mae dulliau priodol ar gyfer rhannu adroddiadau a dogfennau asesiadau meddygol amddiffyn plant yn cynnwys:

1. Anfon e-bost i gyfrifon e-bost nhs.uk neu .gov.uk diogel lle mae'r cynnwys wedi'i warchod gan gyfrinair (dyma'r dull cyflwyno a ffafrir).
2. Dosbarthu â llaw trwy negesydd gyda llofnod i gadarnhau derbyn a hunaniaeth y derbynnydd.
3. Post cofrestredig.

Rhaid darllen a chadw at ganllawiau'r Bwrdd Iechyd a chanllawiau lleol ar Reoli Gwybodaeth.

9.5 **Barn broffesiynol**

Dylid darparu barn feddygol amodol ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac, os yw'n berthnasol, i'r Heddlu ar ôl yr asesiad meddygol. Bydd hyn yn darparu'r farn feddygol interim i gynorthwyo'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu i wneud penderfyniadau ynghylch cynllunio diogelwch uniongyrchol.

Dylai'r proforma barn bediatrig gychwynol gael ei gwblhau gan y Clinigydd sy'n archwilio, ei drafod ar lafar gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a darparu copi papur neu e-bost. Dylid cadw copi a'i ffeilio yng Nghofnod Iechyd y Plentyn.

Dylid rhannu canlyniadau'r asesiad, gan gynnwys unrhyw ymchwiliadau, gyda'r plentyn / person ifanc a'i ofalwr/ofalwyr os yw'n briodol.

10 YMCHWILIADAU, BARN BELLACH AC ATGYFEIRIADAU

Cyfrifoldeb y Pediatregydd sy'n archwilio (a'i oruchwylydd lle bo'n berthnasol) yw penderfynu pa ymchwiliadau sy'n briodol yn seiliedig ar ei asesiad.

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid cynnal ymchwiliadau meddygol adeg yr asesiad meddygol amddiffyn plant. Dylid cynnwys y canlyniadau yn yr adroddiad ysgrifenedig ffurfiol.

Dylid defnyddio craffter clinigol mewn perthynas â diagnosisu meddygol posibl, ynghyd â Chanllawiau Diogelu Cenedlaethol a Lleol, i lywio'r broses ymchwilio.

Rhaid nodi'n glir unrhyw ymchwiliadau nad oes canlyniadau ar gael ar unwaith ar eu cyfer yn y ddogfennaeth. Dylid mynd ar drywydd y rhain, gweithredu arnynt a'u cofnodi'n briodol yng Nghofnod Iechyd y Plentyn gan weithiwr proffesiynol a enwir. Efallai y bydd angen atodiad i'r Adroddiad Meddygol Amddiffyn Plant pan fydd canlyniadau ar gael, a dylid ei rannu â gweithwyr proffesiynol priodol gan ddilyn y canllawiau ym mharagraffau 6.1 a 6.3.

10.1 Delweddu

Dylai ymchwiliadau delweddu gael eu cynnal yn unol â chanllawiau lleol a chanllawiau Coleg Brenhinol y Radiolegwyr - The Radiological Investigation of Suspected Physical Abuse in Children.

Mae angen cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer arolygon ysgerbydol a CT o'r pen sy'n cael eu perfformio fel rhan o'r asesiad o amheuaeth o gam-drin corfforol.

10.2 Profion Gwaed

Mae'r llawlyfr amddiffyn plant yr RCPCH (Child Protection Companion) yn argymhell dilyn y canllawiau yn "Haematological evaluation of bruising and bleeding in children undergoing child protection investigation for possible physical camtreatment: A British Society for Haematology Good Practice Paper", sy'n nodi nad oes angen ymchwiliadau labordy yn y mwyafrif o achosion sy'n ymglyfwyno â chleisiau, yn enwedig plant hŷn, ond y dylid eu hystyried pan:

- Mae cleisiau gan blentyn sydd heb ddechrau symud.
- Mae patrwm cleisio anarferol a/neu waedu sy'n anghymesur â'r mecanwaith honedig.

- Mae gwaedu mewn safle critigol (e.e., ICH, gwaedlif retinol, gwaedlif gastroberfeddol, gwaedlif yn asgrwn y cefn, haemarthrosis) heb unrhyw hanes cyfatebol o drawma neu esboniad arall sy'n rhoi cyfrif digonol am y gwaedu.
- Mae amheuaeth o geulopathi o'r hanes personol, hanes teuluol a/neu'r archwiliad.

Yr ymchwiliadau cychwynnol a awgrymir yw cyfrif gwaed llawn, ffilm gwaed a sgriniad ceulo sylfaenol (PT/APTT/ fibrinogen).

Cynghorir profion cychwynnol ac ategol os oes cleisio a bod anhwylder gwaedu yn cael ei amau o'r hanes, a/neu os oes gwaedu anesboniadwy mewn lleoliad critigol. Byddai hyn yn cynnwys profion o ffactorau II, V, VII, 1-cam a chromogenig VIII, IX, X, XI a XIII, profion clefyd von Willebrand a phrofion i asesu swyddogaeth platennau.

Dylid osgoi prawf cydgrynhoi platennau (platelet aggregometry) i asesu swyddogaeth platennau mewn plant o dan 12 mis oed. Awgrymir bod profion ategol yn cynnwys trafodaeth rhwng y pediatregydd cyfrifol a haematolegydd.

Pan amheuir bod torasgrwn wedi digwydd yn sgil camdriniaeth, dylid cymryd profion gwaed biocemegol perthnasol, yn unol â chanllawiau RCPCH.

10.3 **Offthalmoleg**

Dylid gofyn am archwiliad offthalmolegol gan Offthalmolegydd profiadol lle bo hynny'n briodol yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol a Lleol, gan gynnwys pob achos lle mae amheuaeth o gam-drin corfforol mewn plant o dan flwydd oed. Dylai'r Meddyg sy'n archwilio gysylltu â'r Cofrestrydd neu Ymgynghorydd Offthalmoleg Ar Alwad i drefnu amser addas ar gyfer yr archwiliad hwn.

10.4 **Atgyfeirio at wasanaethau arbenigol**

Os oes angen adolygiad Orthopedig, dylai'r atgyfeiriad cyntaf fod i'r Tîm Orthopedig Lleol. Gellir ystyried Gwasanaethau Orthopedig Pediatrig Arbenigol, clinig esgyrn metabolig, haematoleg, dermatoleg a niwrolawfeddygaeth hefyd. Dylid diogelu plentyn nes bod y farn angenrheidiol wedi'i chael.

10.5 **Asesiad deintyddol**

Argymhellir bod pob plentyn sy'n cael ei asesu am esgeulustod meddygol posibl hefyd yn cael ei weld gan ddeintydd os nad yw hyn wedi digwydd yn rheolaidd yn ystod y chwe mis diwethaf. Pan nodir pryderon am glefyd deintyddol posibl yn ystod yr asesiad meddygol amddiffyn plant, dylid cyfeirio plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gweithwyr cymdeithasol i adolygiad deintyddol cymunedol.

Dylid cyfeirio anafiadau yn y geg at dîm lleol y genau a'r wyneb trwy'r switsfwrdd.

Cyfrifoldeb yr Heddlu yw dod o hyd i Odontolegydd fforensig pan fydd angen asesiad pellach o farc brathu.

11 CYMORTH I STAFF

- 11.1 Gall y Gwasanaeth Llesiant Staff ddarparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i staff o fewn eu bwrdd iechyd.

12 ADNODDAU, HYFFORDDIANT A GWEITHREDU

- 12.1 Mae hyfforddiant Diogelu Lefel 3 rheolaidd ar gael drwy'r bwrdd iechyd. Cysylltwch â'r Tîm Diogelu Corfforaethol i gael rhagor o wybodaeth.
- 12.2 Bydd Staff Meddygol yn cynnal cymwyseddau drwy hyfforddiant Lefel 3, adolygiad gan gymheiriaid ac arsylwi a chynnal asesiadau meddygol amddiffyn plant. Mae hyn yn cael ei fonitro trwy oruchwyliaeth a gwerthuso. Mae presenoldeb rheolaidd mewn adolygiad cymheiriaid hefyd yn cael ei fonitro (mae RCPCH yn argymhell y dylai pob pediatregydd sydd â llwyth achosion cyffredinol neu gymunedol fynychu o leiaf bedwar cyfarfod Adolygiad Cymheiriaid y flwyddyn. Mae'n hanfodol bod meddygon yn cael eu hannog i fynychu a bod amser yn cael ei neilltuo yn ystod eu horiau gwaith at y diben hwn.)
- 12.3 Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithredu fel gwarchodwyr gael eu hyfforddi'n briodol.

13 RHAGOR O WYBODAETH - DOGFENNAU CLINIGOL



Br J Haematol -
2022 - Biss - Haemat

[Child Protection Companion \(CPC\) - RCPCH Child Protection Portal](#)

[Peer Review in child protection - RCPCH Child Protection Portal](#)

14 ARCHWILIO

- 14.1 Dylid monitro ac archwilio agweddau ar y gwasanaeth asesiadau meddygol amddiffyn plant yn rheolaidd.
- 14.2 Dylai monitro rheolaidd gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, eu teuluoedd ac asiantaethau partner fel Gofal Cymdeithasol a'r Heddlu.

15 ADOLYGU

I'w adolygu bob 3 blynedd, cynhelir yr adolygiad nesaf yn 2028

16 ATODIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER Y WEITHDREFN WEITHREDU SAFONOL LEOL

Gweithdrefn i Ofal Cymdeithasol ofyn am asesiad meddygol amddiffyn plant ym mhob bwrdd iechyd

Ffurflen Gyswllt Leol

Cymorth lleol sydd ar gael i staff

Taflen Wybodaeth i Gleifion am Aseidiadau Meddygol Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Proforma Aseiad Meddygol Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

16.1 FFURFLEN GYSWLLT LEOL

Cysylltiadau Cyngor a Chyfeirio Diogelu Plant

Conwy a Dynbich

Cyfeiriadau gan Awdurdodau Lleol ar gyfer Archwiliad Meddygol Diogelu Plant

- I wneud neu i drafod Cyfeiriad ar gyfer Archwiliad Meddygol Diogelu Plant rhwng **0900-1630 o ddydd Llun i ddydd Gwener**, mae Pediatriydd ar Alwad ar gyfer Diogelu (Dim ond yn y gymuned y cynhelir archwiliadau meddygol pan fydd y plentyn/oedolyn ifanc yn cyrraedd cyn 1600.)
Cysylltwch â: **07785454343**
- I wneud neu i drafod Cyfeiriad ar gyfer Archwiliad Meddygol Diogelu Plant rhwng **1630-0900 o ddydd Llun i ddydd Gwener neu yn ystod penwythnosau a Gwyliau Banc** bydd y Cofrestrydd Pediatrig ar Alwad ar gael:
Cysylltwch â switsfwrdd Ysbyty Gwynedd ar **03000 843843** a gofynnwch i gael siarad â'r Ymgynghorydd Pediatrig neu'r Cofrestrydd ar Alwad.

Ym mhob achos, bydd y Pediatriydd ar Alwad yn penderfynu'r amser a'r lleoliad sydd er lles gorau'r plentyn ac yn gwneud y trefniadau priodol.

Ymholiadau'r Awdurdod Lleol ynghylch Archwiliad Meddygol Diogelu Plant sydd eisoes wedi'i gynnal

- Yn y lle cyntaf, dylid cysylltu ag ysgrifennydd y meddyg sy'n archwilio neu'r goruchwyliwr:
Gwasanaeth Pediatrig Cymunedol: **03000 856199**
Gwasanaeth Pediatrig Ysbyty: **03000 846330** (Ysbyty Glan Clwyd)
